Sat-Nav

Cysyniadau: **Ymddiriedaeth, gwerthfawrogiad, penderfyniad.**

Amcan: **Dysgu gwrando a dilyn cyfarwyddiadau.**

Cyfarpar: **Atlas, sat-nav.**

Cyflwyniad:

● Sôn am ddigwyddiad lle roeddech wedi mynd ar goll. Doedd gennych ddim map na sat-nav. Gorfod dibynnu ar yr arwyddion ffordd. Ond roedd gwaith ffordd yn digwydd ac arwydd 'Gwyriad' ond doedd yr arwyddion wedyn ddim yn glir. Felly buoch yn troi a throsi a mynd rownd a rownd o gwmpas. Ond yn y diwedd cawsoch help gan yr heddlu a dwy awr yn ddiweddarach cyrhaeddoch ben y daith. Ond taith awr oedd hi fel arfer.

● Holi'r plant faint o'u rhieni sydd yn mynd â map efo nhw yn y car. Faint sydd efo sat-nav yn y car? Bydd y plant wrth eu boddau yn trafod nodweddion y sat-nav. Beth yw ei rinweddau? Ydi o'n dangos pan fo damwain wedi digwydd? Beth am waith ffordd?

Trafodaeth bellach:

● Trafod bywyd fel taith. Gellir trafod y Beibl fel sat-nav. Mae'n rhoi cyfarwyddyd i ni sut i deithio, pethau i'w hosgoi ar y ffordd a ffrindiau da i rannu'r daith. Mae hefyd yn llawn o straeon am rai o'r teithwyr. Mae'n manylu ar eu teithiau, y troeon trwstan ar y ffordd.

● Mae'n bwysig gwrando ar y cyfarwyddiadau. Beth mae'r sat-nav yn ddweud wrthyn ni a beth mae'r Beibl yn ddweud wrthyn ni.

Stori:

'Carys, dwyt ti ddim yn gwrando dim arna i.' Dyna oedd tôn gron ei mam. Roedd Carys mewn byd bach ar ei phen ei hun. Roedd ei hathro, hefyd, yn dweud yr un peth wrthi.

Un diwrnod, yn yr ysgol roedd gan Mr James newyddion da iawn i'r dosbarth. Roedden nhw'n cael mynd i ganolfan ddringo yn y dref i ddysgu sgiliau dringo a hynny am ddiwrnod cyfan. 'Cofiwch ddod â phecyn bwyd efo chi.'

Edrychai Blwyddyn 6 ymlaen i'r diwrnod. Dim gwersi yn yr ysgol a chyfle i ddysgu dringo yn y ganolfan.

Bachgen heini yr olwg oedd yr hyfforddwr. 'Tomos ydw i, a fi ydi'r hyfforddwr heddiw. Y peth pwysicaf i chi gofio heddiw ydi dysgu gwrando'n astud. Mi fydda i'n rhoi cyfarwyddiadau i chi ac os gwrandewch chi ar bob gair fydd dim rhaid i chi bryderu dim.'

Edrychodd Mr James ar Carys. 'Mi ydw i yn gwrando, Mr James,' meddai Carys â gwên ar ei hwyneb.

Dechreuodd Tomos ddangos i'r plant sut i gysylltu'r rhaffau i'r carabiner, sef clip diogelwch ar y belt, sut i fynd i'r harnais ddiogelwch a sut i gau'r helmed. Roedd Carys yn gwylio ac yn gwrando'n astud. Crwydrodd ei meddwl. Tybed oedd hi wedi gweld Tomos ar y rhaglen Cyw pan oedd hi'n gwylio'r rhaglen efo'i brawd bach?

'Beth bynnag wnewch chi peidiwch â gadael i hyn ddigwydd,' meddai Tomos.

'Gadael i beth ddigwydd?' gofynnodd Carys iddi'i hun. Gwelodd weddill y dosbarth yn nodio'u pennau. Mae'n rhaid ei fod yn rhywbeth pwysig!

Mewn dim o amser roedd Carys yn dringo'n reddfol o gam i gam ar y wal ddringo. Daeth i lawr o'r top a'i ffrindiau yn gadael i'r rhaff lithro drwy eu bysedd a glaniodd ar y llawr. 'Mae o'n grêt' meddai Carys.

Yn awr, ei thro hi ac Elin oedd helpu Marged i ddringo tra oedd y rhaff yn eu dwylo. Dyma'r adeg pan ddechreuodd meddwl Carys grwydro. Beth yn union oedd hi fod i'w wneud efo'r rhaff? Ond doedd Marged ddim yn gyffyrddus. 'Dw i eisiau dod i lawr, y munud yma,' gwaeddodd.

'Iawn,' meddai Tomos. 'Ydych chi'ch dwy yn barod i'w helpu?'

'Ydyn' oedd ateb y ddwy. Neidiodd Marged yn sydyn ond doedd Carys ddim yn dal y rhaff yn ddigon tynn. Llithrodd y rhaff o ddwylo Carys a syrthiodd Marged ar ei chefn ar y llawr. Gwyddai Carys y dylai hi fod wedi gafael yn y rhaff yn dynnach o lawer.

Brasgamodd Tomos at Marged a dweud wrthi am beidio symud. Aethpwyd â Marged i'r ysbyty a bu yno am bedwar diwrnod.

Doedd Carys ddim yn gwybod beth i'w ddweud!

Trafodaeth bellach:

- Pwy sy'n debyg i Carys?
- A ddylai Marged fod ar y wal ddringo os oedd hi'n ofnus?
- Ar pwy oedd y bai fod Marged wedi syrthio?

Emyn: Teithio yn y car ar y draffordd hir: Canu Clod 383

Dyfyniad o'r Beibl:

Mae Iesu wedi addo:

"Bydda i'n gofyn i'r Tad, a bydd e'n rhoi un arall fydd yn sefyll gyda chi ac yn aros gyda chi am byth." Ioan 14:16 beibl.net

Munud i feddwl:

Yn aml iawn, dydi'r ffordd ymlaen ddim yn glir. Ond ar ôl cymryd y cam cyntaf bydd y ffordd yn dod yn gliriach. Martin Luther King

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, wnei di ein harwain ar hyd y ffordd, a phan fo'r ffordd yn anodd ac yn droellog wnei di bryd hynny afael yn dynn yn ein llaw? Diolch. Amen.